



Gwers 5



Cyfres Stori Duw

Dechrau newydd: diwedd cyfarwydd

Genesis:4 – 11

Nod:

I weld datblygiad pechod yn y byd, a pha mor fawr yw'r broblem sy'n dod gydag ef.

Adnodau:

Genesis:4 – 11

Y cefndir:

Gofynnwch i'r bobl ifanc i edrych yn sydyn ar benodau 4–11 yn llyfr Genesis, gan nodi'r prif ddigwyddiadau a chymeriadau (rhowch amser penodol i hyn, dylai 5 munud fod yn ddigon, neu gallant fod wrthi drwy'r wers).

Ar ôl iddynt wneud hyn, gofynnwch iddynt beth maent yn ei wybod am rai o'r cymeriadau / hanesion, e.e. Cain ac Abel, Noa, tŵr Babel.

Y prif bwynt sydd eisiau ei bwysleisio yw effaith pechod ar unigolion a'r greadigaeth, lladd Abel, pechod y byd yn arwain Duw i ddinistrio drwy ddilyw, Duw yn cosbi pobl eto trwy eu gwahanu wrth iddynt geisio bod fel Duw ac adeiladu tŵr i'r nefoedd. Does dim byd da yn deillio o bechod, gofynnwch i'r bobl ifanc a yw'r byd yn Genesis 4 – 11 yn debyg i Genesis 1 a 2?

Gweithgaredd:

Chwaraewch y gêm 'tic' gydag un person yn ticio yn gyntaf, ac ar ôl i'r person hwnnw dicio rhywun arall, maen nhw hefyd yn ymuno â'r

person cyntaf i dicio pobl. Yn fuan fe fydd pawb yn ticio a bydd y gêm drosodd. Gallwch chwarae hon fwy nag unwaith gan newid pwy sy'n ticio ar y dechrau.

Os yw lle yn brin yn yr Ysgol Sul, gallwch chwarae gêm 'blinc–laddwr'. Yn y gêm hon, mae pawb yn eistedd ar y llawr mewn cylch. Fe fyddwch yn dweud wrth un, heb adael i'r gweddill wybod, mai ef/hi yw'r 'blinc–laddwr', yr amcan yw bod y person hwnnw yn blincio ar aelodau eraill y cylch pan fydd yn dal eu llygaid, ac yna fe fyddan nhw wedyn yn gorfod esgus marw cyn troi'n 'flinc–laddwyr' hefyd. Wrth i hyn fynd ymlaen, y dasg i weddill y grŵp yw dyfalu pwy yw'r 'blinc–laddwr' cyn iddynt hwythau gael eu 'lladd'.

Mae'r gemau hyn yn dangos pa mor sydyn mae pechod yn lledaenu, fel y gwelwn yn y penodau hyn yn Genesis.

Darllen yr adnodau:

Ni fyddwn yn darllen y penodau i gyd yn fanwl, ond byddwn yn edrych ar ddwy adran wahanol. Gallwch ddewis rhannu'r bobl ifanc yn ddau grŵp a rhoi testun yr un iddynt edrych arnynt ac yna adrodd yn ôl, gyda chrynodeb o'r hanes ac atebion i'r cwestiynau. Neu, gallwch wneud y ddau destun fel un grŵp mawr. Os ydych yn rhannu'n grwpiau llai, cofiwch fynd o amgylch pob grŵp yn rhoi arweiniad iddynt.

Darlleniad 1. (Genesis 6:8-22), cwestiynau i'w hateb; beth mae hyn yn ei ddweud am Noa? Beth mae Duw yn addo'i wneud? Beth ddywed hyn wrthym am Dduw?

Darlleniad 2. (Genesis 9:8-16), cwestiynau i'w hateb; beth mae Duw'n ei addo i Noa a'i ddisgynyddion? Mae dechrau newydd yn y fan hyn, ydych chi'n credu y bydd popeth yn iawn o hyn ymlaen? Mewn 5 adnod gwelwn fod pechod dal yn y byd, beth mae Noa'n ei wneud? (ateb – meddwi 9:21)

Crynodeb:

Roedd bywyd i ddisgynyddion Adda ac Efa y tu allan i ardd Eden yn llawn pechod, dioddefaint a marwolaeth. Erbyn amser Noa, roedd pethau mor ddrwg nes y penderfynodd Duw gosbi'r byd gyda dilyw. Dim ond Noa a'i deulu gafodd eu hachub gan fod Noa'n ffyddlon i Dduw. Ond er bod pethau wedi newid gwelwn fod pechod yn dal yn bresennol. Ym mhennod 11 mae'r ddynoliaeth, yn hytrach na llenwi'r ddaear, yn aros mewn un lle ac yn ceisio adeiladu tŵr i fyny at y nefoedd. Gwyddwn nad yw hyn yn bosibl, ond roeddent yn dangos eu bod hwy eisiau bod fel Duw – pechod fel Adda ac Efa yn yr ardd. Cawsant eu cosbi gan Dduw a gwelwn felly nad yw dechrau newydd yn dileu problem pechod, mae angen ateb arall...

Gweithgaredd:

bydd angen llawer o eitemau'r un fath, e.e. llyfrau emynau, neu focsys matsis, neu lyfrau amrywiol. Rhowch dasg i'r bobl ifanc, sef ychwanegu'r pethau hyn ar ben ei gilydd fesul un i greu tŵr mawr. Gadewch iddynt barhau nes bod y tŵr yn disgyn. Os oes amser, gadewch iddynt wedyn geisio curu uchder y tŵr cyntaf gydag ail dŵr.

Amser Addoli:

Diolchwch i Dduw ei fod wedi anfon Iesu Grist i ddileu problem pechod unwaith ac am byth. Ac er ein bod ninnau, fel pobl cyfnod Noa a thŵr Babel, yn aml yn pechu, mae Duw yn hytrach na'n dinistrio neu'n cosbi, yn cynnig maddau i ni os rhown ein ffydd yn Iesu.